Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

## Nodyn ar ail gyfarfod y grŵp cynghori

Dydd Llun 11 Medi 2023

## Y cefndir

**1.** Cyfarfu naw aelod o'r grŵp cynghori â'r Pwyllgor ar gyfer ail gyfarfod y grŵp cynghori mewn sesiwn breifat yn y Senedd ddydd Llun, 11 Medi 2023. Roedd saith o'r rhai a oedd yn bresennol wedi cyfrannu at drafodaethau cyfarfod cyntaf y grŵp cynghori, ac roedd dau yn aelodau newydd.

**2.** Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg yn ystod y trafodaethau.

## Themâu

### Thema 1: Yr heddlu a gwasanaethau rheng flaen eraill

**3.** Disgrifiwyd sut mae'r gwasanaethau rheng flaen sy'n gyfrifol am gefnogi dioddefwyr trais ar sail rhywedd yn rhai 'sy'n gweithio hyd eithaf eu gallu'. Holodd rhai aelodau o'r grwp cynghori a oedd gan y sefydliadau y mae cyllid yn cael ei ddyrannu iddynt y gallu i ddarparu gwasanaeth sy'n addas i'r diben ac sy'n gallu bodloni'r galw.

**4.** Codwyd pryderon difrifol am ansawdd yr hyfforddiant y mae'r heddlu'n ei gael i'w galluogi i ymateb yn briodol ac yn sensitif i ddigwyddiadau lle honnir bod cam-drin domestig a/neu drais rhywiol wedi digwydd.

**5.** Mae cam-drin domestig a/neu drais rhywiol yn aml yn gymhleth ac yn gynnil. Mae hyfforddiant cadarn ac aml a fyddai'n galluogi swyddogion heddlu i ganfod arwyddion ac o bosibl nodi achosion o gam-drin domestig a/neu drais rhywiol yn gynnar yn hanfodol. Roedd rhai aelodau o'r grŵp cynghori yn cymharu eu profiad personol â'r heddlu, a ddisgrifiwyd fel profiad negyddol i raddau helaeth, â'u profiad o ymgysylltu â gwasanaethau rheng flaen eraill.

**6.** Mae cam-drin domestig a/neu drais rhywiol yn amlochrog ac nid yw bob amser yn amlygu ei hun mewn ffordd sy'n weladwy neu'n hawdd ei adnabod. Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â chefnogi unigolyn sy'n profi cam-drin domestig a/neu drais rhywiol fod yn wybodus am drawma ac yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o gam-drin.

**7.** Mae angen gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam y gall dioddefwr ddod i'r amlwg mewn ffordd arbennig ar wahanol gamau o ymchwiliad. Er enghraifft, gall dioddefwr ymddangos fel pe bai mewn cyflwr emosiynol mwy dwys (a ddisgrifiwyd gan un aelod o'r grŵp cynghori fel rhywun sydd mewn 'modd ymladd eu ffoi') wrth ddarparu datganiad i swyddog heddlu ar y cyswllt cyntaf.

**8.** Roedd y grŵp cynghori'n pryderu bod unrhyw ddatganiad a roddwyd yn ddiweddarach yn yr ymchwiliad, yn gallu ymddangos yn anghyson â'r datganiad cynharach, ac mae hynny'n aml yn cael ei ddefnyddio i ddwyn anfri ar y dioddefwr. Ychydig iawn o ystyriaeth a roddir i'r farn y gall hanes dioddefwr amrywio rhywfaint pan nad yw yng nghanol y cynnwrf cychwynnol, i'r adeg pan mae wedi cael cyfle i fyfyrio ar y digwyddiad(au) a phrosesu e drawma.

**9.** Mae'n bosibl na fydd dioddefwyr cam-drin domestig a/neu drais rhywiol bob amser yn gyfforddus i ddatgelu gwybodaeth yn rhwydd i swyddog heddlu, a nododd rhai aelodau o'r grŵp cynghori eu bod yn "codi atalfa amddiffynnol" o'u cwmpas. Awgrymwyd y dylai gweithiwr proffesiynol sydd â phrofiad byw o gam-drin domestig a/neu drais rhywiol fynd gyda swyddog heddlu, lle bo modd, yn ystod y cyswllt cyntaf â dioddefwr.

**10.** Mae goroeswyr trais ar sail rhywedd yn arbenigwyr yn ôl eu profiadau. Gallai goroeswyr cam-drin domestig fod â rôl o ran rhoi gwybodaeth i'r gwasanaethau rheng flaen ar gymhlethdodau a naws cam-drin, a'u haddysgu.

### Thema 2: Rhaglenni cyflawnwyr

**11.** Codwyd pryderon difrifol ynghylch effeithiolrwydd a chysondeb y broses o ddarparu rhaglenni cyflawnwyr, a ddisgrifiwyd fel ymarferion ticio blychau gan rai aelodau o'r grŵp cynghori.

**12.** Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni i gyflawnwyr fod yn wybodus am drawma, a meddu ar y profiad a'r arbenigedd angenrheidiol i nodi a yw defnyddiwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd neu mewn perygl o gyflawni trosedd tra mae'n cymryd rhan ar y rhaglen.

**13.** Roedd pryderon bod cyflawnwyr yn mynd ar gwrs i ddefnyddio /ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn achosion gofal plant, ac ar yr un pryd yn methu â chymryd gwir atebolrwydd am eu hymddygiad. Rhoddodd rhai aelodau o'r grŵp cynghori enghreifftiau personol o'u tramgwyddwr yn mynychu rhaglen, ond yn parhau â'r ymddygiad yn ystod y cwrs neu ar ôl ei gwblhau.

**14.** Roedd un aelod o'r grŵp cynghori o'r farn bod rhaglenni cyflawnwyr yn rhoi gormod o bwyslais ar "lais y cyflawnwr" ac yn cael gormod o gyllid.

### Thema 3: Anabledd

**15.** Mae profiadau pobl anabl o gam-drin domestig a/neu drais rhywiol yn unigryw ac yn cael eu hanwybyddu gan y gwasanaethau. Mae naws a chynildeb yn eu profiad, a all olygu bod cyfrifoldeb yn aml yn cael ei roi ar y person anabl i egluro'r risgiau ychwanegol y mae'n nhw'n eu hwynebu.

**16.** Dylid rhoi hyfforddiant i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â phobl anabl neu'n gyfrifol am eu cefnogi (nid yn unig gweithwyr yn y gwasanaethau sy'n gyfrifol am gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a/neu drais rhywiol), fel swyddogion synhwyraidd a swyddogion tai, i adnabod arwyddion o gam-drin a brofir gan bobl anabl.

**17.** Gall pobl anabl sy'n profi cam-drin ac sydd â phlant gyda'u cyflawnwr, hefyd wynebu rhwystrau wrth lywio achosion gofal plant. Rhoddwyd enghraifft, sef o ddatgelu adroddiad i ddioddefwr anabl cam-drin domestig, ddiwrnod cyn ei gwrandawiad, nad oedd mewn fformat hygyrch iddi.

### Thema 4: Casglu data

**18.** Bu'r grŵp cynghori'n trafod y defnydd o ddata personol yn GIG Cymru a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a'i rannu pan gyflwynir presgripsiynu electronig (sef, e-ragnodi).

**19.** Tra bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig yn isel, roedd aelodau'r grŵp cynghori yn pryderu y gallai troseddwr neu aelod o deulu/ffrind y tramgwyddwr a gyflogir gan y GIG o bosibl gael mynediad at eu data.

**20.** Bu'r grŵp cynghori yn rhoi adroddiadau am enghreifftiau o'u data personol, fel cofnodion meddygol, yn cael eu rhannu gan sefydliadau yn ystod achosion gofal plant, a oedd yn peri bod llawer o'r menywod a'u plant yn teimlo'n agored i niwed ac yn anniogel. Eglurodd un aelod o'r grŵp cynghori ei bod wedi'i gorfodi i symud tŷ o ganlyniad i ddatgelu ei lleoliad i'r un a fu'n tramgwyddo yn ei herbyn, heb ei chaniatâd.

**21.** Roedd rhai aelodau o'r grŵp cynghori yn cytuno bod y mater yn gymhleth, ac yn cydnabod bod angen rhannu data o bryd i'w gilydd, yn enwedig ar draws ardaloedd awdurdodau lleol lle gallai diogelwch personol unigolyn fod mewn perygl. Mae dull cyson, tryloyw ac ystyriol o rannu data yn hanfodol pan fo diogelwch a llesiant unigolyn a/neu blentyn o dan sylw.

### Thema 5: Cam-drin ar ôl gwahanu

**22.** Ychydig iawn o ddealltwriaeth a darpariaeth sydd ar gyfer cam-drin ar ôl gwahanu. Yn aml, ni ystyrir bod dioddefwyr cam-drin mewn perygl oherwydd nad ydynt bellach yn byw gyda'r cyflawnwr. Fodd bynnag, mae'r gamdriniaeth yn aml yn barhaus ond mae'n amlygu ei hun mewn ffordd wahanol, yn enwedig pan fo'r dioddefwr a'r troseddwr yn rhannu'r cyfrifoldeb am blant.

**23.** Mae'n hanfodol bod sefydliadau sy'n ymwneud ag achosion gofal plant mewn sefyllfa well i ddeall cam-drin ar ôl gwahanu, ac ymdrin â goblygiadau eu penderfyniadau, yn enwedig ar y berthynas rhwng y partïon dan sylw. Roedd rhai aelodau o'r grŵp cynghori o'r farn bod y rhai sy'n cam-drin yn trin sefydliadau sy'n ymwneud ag achosion gofal plant fel ffordd o gynnal rheolaeth, ac yn parhau i gam-drin y dioddefwr.

**24.** Mae gwasanaethau sydd â dealltwriaeth o gefnogi dioddefwyr cam-drin ar ôl gwahanu, a sydd â'r gallu i'w cefnogi yn hanfodol gan fod nodweddion cam-drin ar ôl gwahanu yn unigryw. Yn aml, gall y gwasanaethau gydnabod y peryglon y gall dioddefwyr eu hwynebu, ond ni fydd ganddynt y cyllid na'r arbenigedd i'w cefnogi. Eglurodd un aelod o'r grŵp cynghori fod nifer o fenywod a phlant yn aml yn cael eu lladd ar ôl iddynt ddod â pherthynas gamdriniol i ben.

### Thema 8: Diogelwch ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol

**25.** Nid oedd rhai aelodau o'r grŵp cynghori yn teimlo bod ysgolion yn gwneud digon i fynd i'r afael ag effaith beryglus a chref dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, sef pobl fel Andrew Tate, ar eu disgyblion. Rhoddwyd enghreifftiau

o blant pedair ar ddeg oed a oedd yn ysu am golli eu gwyryfdod, ac o'r defnydd o dracwyr gan bobl ifanc yn eu harddegau.

**26.** Codwyd pryderon difrifol hefyd am natur cynnwys pornograffig ar-lein a pha mor rhwydd oedd cael mynediad ato, a’r ffordd y gall ystumio’r hyn y gall person ifanc ei ystyried sy’n berthynas iach a chariadus.